envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Croeso i drydydd rhifyn cylchlythyr Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (PSWMC) 2010/11. Mae'r rhifyn hwn yn edrych ar leihau gwastraff, yn darparu astudiaethau achos ysbrydoledig, awgrymiadau ar sut i fesur a monitro gwastraff eich sefydliad, ac yn ail-lansio'r Gronfa Offer Effeithlonrwydd Adnoddau!

Beth am Ganolbwyntio ar LEIHAU Gwastraff

Mae gan yr holl wastraff a gynhyrchir gan eich busnes gost ariannol ac amgylcheddol gysylltiedig a gaiff ei thanbrisio'n aml. Gyda chost deunyddiau ac ynni yn codi, mae dod o hyd i ffyrdd o osgoi gwastraff cyn y caiff ei gynhyrchu yn gwneud synnwyr ariannol da. Gall cost lawn gwastraff gyfrif am hyd at 4.5% o drosiant a gall rhaglenni lleihau gwastraff effeithiol arbed tua 1% o drosiant mewn ychydig fisoedd. Y ffordd orau o leihau gwastraff yw peidio â'i gynhyrchu yn y lle cyntaf. Cyn prynu unrhyw beth, gofynnwch y cwestiynau canlynol: A oes angen i ni brynu'r nwyddau neu'r deunyddiau? A oes angen i ni brynu cymaint? A allwn ailddefnyddio unrhyw beth yn gyntaf? Beth ddigwyddodd i'r deunyddiau diwethaf a brynwyd?

Mae symud tuag at sector cyhoeddus mwy cynaliadwy a lleihau gwastraff yn golygu gwneud newidiadau sylfaenol i agweddau ac arferion presennol sefydliadau. Er y gall lleihau gwastraff ymddangos yn fwy anodd nag ailgylchu, a hynny o ran ei gyflawni a'i fesur, mae nifer o gamau y gellir eu cymryd i'ch rhoi ar ben ffordd tuag at yr hierarchaeth wastraff.

Y pum cam cyntaf i Leihau gwastraff:

- **Gwybod beth, ble a sut y caiff gwastraff ei gynhyrchu yn eich sefydliad drwy gynnal archwiliad o wastraff i helpu i dargedu camau gweithredu**
- **Prynu mewn swmp a dim ond yr hyn sydd ei angen arnoch drwy symleiddio'r broses brynu**
- **Gofyn i staff "feddwl cyn taflu", efallai y bydd rhywun arall am ei ddefnyddio**
- **Ystyried gwydnwch a hyd oes cynnyrch cyn penderfynu ei brynu: Mae un dunnell o wastraff wedi cynhyrchu pum tunnell o wastraff ar y cam gweithgynhyrchu ac 20 o dunelli ar y safle lle cloddiwyd yr adnodd yn wreiddiol.**
- **Meithrin arferion swyddfa da: argraffu ar ddwy ochr y dudalen, ail-lenwi cetris inc, defnyddio papur gwastraff fel papur nodiadau, osgoi defnyddio cwpanau, mygiau, cyllyll a ffyrc amldro a chartonau llefrith bach, ailddefnyddio amlenni**

Astudiaeth Achos Lleihau Adnoddau: Coleg Glan Hafren

Mae'r Coleg wedi nodi'r angen i LEIHAU faint o bapur y mae'n ei ddefnyddio. Mae'r coleg wedi cymryd camau i wneud hyn ac wedi cael arian gan PSWMC i'w helpu i gyflawni'r nod!

Targed:

Er mwyn LLEIHAU nifer yr argraffwyr nad ydynt yn rhai dwplecs, caiff argraffwyr eu tynnu o ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd staff. Caiff argraffwyr/llungopïwyr amlswyddogaeth eu prynu yn lle'r hen beiriannau. Caiff yr argraffwyr newydd eu cysylltu â'r rhwydwaith a chaiff nifer y tudalennau a argreffir eu cyfrif. Cânt hefyd eu gosod ar osodiad dwplecs drwy bolisïau mewngofnodi defnyddwyr. Gyda'r newidiadau newydd ar waith, nod y coleg yw lleihau nifer y tudalennau A4 a argreffir ym mhob rhan o'r Coleg gan ddefnyddio dyfeisiau nad ydynt yn rhai dwplecs, sef 600,000 ar hyn o bryd, 150,000 drwy ddefnyddio'r dyfeisiau amlswyddogaeth newydd.

Edrychwch ar astudiaethau achos ysbrydoledig eraill ar wefan PSWMC

Y Gronfa Offer yn Ail-Agor!

Mae'r dyddiad cau ar gyfer y gronfa offer wedi'i ymestyn i **1af Rhagfyr 2010**

Mae'r gronfa yn darparu hyd at £3,000 i sefydliadau i'w helpu i brynu offer gyda'r nod o leihau'r gwastraff a gynhyrchir yn fewnol ac a anfonir i safleoedd tirlenwi.

- Cliciwch Yma i weld manylion y gronfa a ffurflen gais.
- I weld enghreifftiau o geisiadau blaenorol, ewch i Wefan PSWMC.

Mesur a Monitro Gwastraff

Bydd mesur beth, ble a sut y caiff gwastraff ei gynhyrchu yn rhoi meincnod effeithiol i chi bennu targedau a monitro cynnydd yn erbyn yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni yn y dyfodol. Mae monitro rheolaidd dros gyfnod o amser yn galluogi gwaith dadansoddi mesuriadau i bennu pa mor agos rydych i gyrraedd eich nodau.
Mae cyfleu canlyniadau monitro yn ffordd wych o ddangos i bobl pa mor llwyddiannus yw eu camau gweithredu yn y gweithle. Gall data a gesglir ar faint o wastraff a gynhyrchir ddangos llwyddiant o un cyfnod i'r nesaf. Gall casglu data hefyd ddangos y meysydd y mae angen eu gwella.

Mae nifer o adnoddau a gwybodaeth ar gael i helpu sefydliadau i fesur a monitro faint o wastraff a gynhyrchir, megis:
Cymorth Hyblyg i Fusnes — Asesu a Chyfleu Perfformiad Amgylcheddol
WRAP—Systemau Rheoli Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau

Astudiaeth Achos Monitro Gwastraff: Coleg Sir Gar
Nod: Sefydlu system ddata well ar gyfer casglu, cofnodi a monitro data gwastraff ar bob un o bum safle'r coleg, gan ystyried y gofynion a'r gwasanaethau gwahanol ar bob safle. Yr amcan oedd pennu targedau realistig ar gyfer lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. **Targed:** Gwella'r gyfradd ailgylchu i 70% o 53.5% ym mhob un o safleoedd y coleg, a disgwylir i hyn arwain at ddargyfeirio dros 40 o dunelli ychwanegol y flwyddyn gan arwain at arbedion cost sylweddol. Bydd y daenlen monitro a ddatblygwyd i olrhain y broses o leihau gwastraff a'r cynnydd o ran ailgylchu yn help mawr wrth nodi meysydd i'w gwella.
I weld rhagor o astudiaethau achos cliciwch yma
Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut mae'r ddau sefydliad yn mynd i'r afael â'u gwastraff ar:
Wefan PSWMC

PSWMC - Darparu Cymorth i CHI!

Mae PSWMC yn darparu cymorth i helpu sefydliadau yng Nghymru i Leihau faint o wastraff a gynhyrchir o ganlyniad i'w gweithrediadau bob dydd wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r cymorth hwn yn parhau drwy'r straeon newyddion perthnasol a gyflwynir ar wefan PSWMC, y wybodaeth a roddir i sefydliadau a chyfleoedd i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd eraill fel Mae Pob Can yn Cyfrif a Parth Ailgylchu.

Mae cymorth arbenigol ar gael i chi - gall sefydliadau gael cymorth arbenigol drwy Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus yn 2010/11 gyda'r nod o leihau faint o wastraff a gynhyrchir.

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y cymorth hwn, cofrestrwch eich diddordeb drwy e-bostio:

public.sector@envirowisewales.org.uk

Rhowch y wybodaeth ganlynol:

- Enw, rhif ffôn, enw a chyfeiriad y sefydliad
- Faint o wastraff a gynhyrchir a pha fath o wastraff ydyw
- Nodau ac amcanion pesennol o ran lleihau gwastraff

Gallwch weld manylion y prosiectau Cymorth Arbenigol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Byddwn yn diweddaru'r wybodaeth hon yn rheolaidd felly gallwch barhau i ddod yn ôl i weld pa gynnydd sy'n cael ei wneud. Cymorth Arbenigol

"Mae newid arferion yn anodd fel unigolyn. Fodd bynnag, gall grwpiau greu momentwm newydd ar gyfer newid."
***Bydda i'n gwneud os byddi di*,**
Bord Gron Defnydd Cynaliadwy

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus, cysylltwch â ni yn public.sector@envirowisewales.org.uk new ewch i wefan PSWMC.